

**Duw yn cadw
Ei addewidion**



TRUEWAY KIDS.COM

Cyflwyniad

Mae'r wers yr wythnos hon yn parhau o ran 1 o Arch Noa. Os gwnaethoch ei methu, efallai y byddwch yn gallu ei lawrlwytho o truewaykids.com am ddim. Mae'r wers yr wythnos hon yn canolbwyntio ar addewidion a ffyddlondeb Duw. Ein darlenniad o'r Beibl yw Genesis 8-9. Dyma rai o'n pwyntiau allweddol:

- Mae Duw bob amser yn cadw ei addewidion.
- Rhaid inni aros am amseriad Duw.
- Dylem ddiolch i Dduw.

Canllaw Gwersi

Mae'n bwysig bod eich plentyn yn deall beth yw gwneud a chadw addewid. Gofynnwch iddyn nhw a ydyn nhw'n gwybod beth mae hyn yn ei olygu. Esboniwch a rhowch ychydig o gyfarwyddyd iddyn nhw.

Gofynnwch i'ch plentyn a ydy e/hi'n credu ei bod yn bwysig cadw addewid. Rhannwch amser yr addawoch wneud rhywbeth, ond digwyddodd rhywbeth, ac nid oeddech yn gallu cadw eich addewid. Eglurwch sut nad yw Duw fel ni. Mae Duw yn hollalluog ac ni all dim ei lesteirio.

Meddylwch am adeg pan wnaethoch addo gwneud rhywbeth gyda'ch plentyn a bu'n rhaid iddynt aros. Er enghraifft, mynd i'r parc ar ôl glanhau'r tŷ. Rhannwch ei bod weithiau'n anodd aros i addewid gael ei chyflawni.. Roedd Noa a'i deulu yn yr arch am gyfnod hir, ond roedden nhw'n dal i ymddiried yn Nuw a'i addewid i'w cadw'n ddiogel.

Cymerodd Duw ofal o Noa a'i deulu hyd yn oed tra oeddent yn aros. Mae'n bwysig i ni ddiolch bob amser i Dduw am ofalu amdanom.

Dangoswch lun o enfys. Adolygwch y lliwiau gyda'ch plentyn. Eglurwch fod Duw yn rhoi'r enfys yn yr awyr i'n hatgoffa ei fod bob amser yn cadw Ei Addewidion.

Dysgwch ac ailadroddwch gyda'ch gilydd: Numeri: 23:19 'Beth bynnag a addawa Duw, mae'n gwneud hynny.'

Gofynnwch i'ch plentyn a ydy e neu hi'n gwybod unrhyw addewidion y mae Duw wedi'u gwneud. Rhannwch gyda'r plentyn rai o addewidion eraill Duw o'r Beibl. Mae'r grefft yr wythnos hon yn cynnwys saith addewid o'r Beibl. Un ar gyfer pob lliw o'r enfys. Gellid defnyddio'r grefft hefyd i adolygu un addewid bob dydd. Er enghraifft, gwnewch y cwmwl ac atodwch y coch ar y diwrnod cyntaf ac yna ychwanegwch un lliw arall bob dydd am weddill yr wythnos, gan ddysgu addewid newydd bob dydd.

Video playlist






Yn fuan, glaniodd yr arch ar dir sych.

Rhedodd yr holl anifeiliaid allan i fwynhau'r ddaear.

Diolchodd Noa i Dduw am ei achub.

Rhoddodd Duw enfys yn yr awyr i atgoffa Noa ei fod bob amser yn cadw Ei addewidion.



Duw yn cadw Ei addewidion

Am bedwar deg diwrnod a a phedwar deg nos bu' n bwrw glaw yn union fel y dywedodd Duw.

Roedd Noa yn ddiogel yn yr arch gyda'i deulu a'i anifeiliaid.

Ddydd ar ôl dydd, roedden nhw'n arnofio dros y ddaear.



Ar ôl ychydig, daeth yr haul
allan o'r tu ôl i'r cymylau.
Anfonodd Noa golomen allan
i geisio dod o hyd i dir sych,
ond daeth y golomen yn ôl.
Roedd y ddaear yn llawn
dŵr.



Wythnos yn ddiweddarach,
anfonodd Noa golomen eto.
Y tro hwn, dychwelodd y
golomen gyda changen
olewydden
Roedd Noa, n gwybod bod y
dŵr wedi mynd i lawr digon i
rywfaint o dir ymddangos.
Gwyddai y byddai'r Dilyw
wedi dod i ben cyn bo hir.

Gêmau a Gweithgareddau

Rwy'n sbïo lliwiau

Gêm hwylus a hawdd y gellir ei chwarae unrhywle. Dechreuwch drwy ddweud "Rwy'n sbïo rhywbeth (lliw) ac mae'n rhaid i'r plentyn ddyfalu. Os yw eich plentyn yn ddigon hen, gall gymryd ei dro. Ceisiwch atgyfnerthu'r lliw. Er enghraifft, os yw eich plentyn yn ymateb i "bêl", gallwch ddweud, "Ie, y bêl werdd."

Didoli lliwiau

Mae sawl ffordd o chwarae'r gêm hon. Y cyfan sydd ei angen arnoch yw casgliad o wahanol wrthrychau lliw (pegiau dillad, pom-poms, darnau o bapur, blociau adeiladu, unrhyw beth mewn gwirionedd.)

Ar ddarn o bapur, gwnewch gylchoedd gan ddefnyddio pennau lliw gwahanol. Gofynnwch i'r plentyn roi trefn ar yr holl wrthrychau a'u rhoi yn y cylch cywir. Os oes gennych ychydig mwy o amser, gallech hyd yn oed beintio rhai tiwbiau cardbord, i wneud saethau i'r gwrthrychau lithro i lawr i'r cynhwysydd cywir.



Helfa pethau lliw

Gwnewch gylchoedd lliw ar bapur. Gofynnwch i'ch plentyn ddod o hyd i un gwrthrych o bob lliw cyn gynted â phosibl. Awgrym, mae'n fwy o hwyl os gwnewch yn siŵr bod gwrthrychau o bob lliw yn yr ystafell.

Salad ffrwythau enfys






Bydd angen: cwpanau plastig tryloyw a ffrwythau o wahanol liwiau (mefus, bananas, orenau, llusi duon bach, ciwi, pîn-afal ac ati)

Gadewch i'r plant eich helpu i olchi a pharatoi'r ffrwythau. Helpwch nhw i osod un haen o bob ffrwyth yn eu cwpan i wneud enfys. pert, blasus ac iach!









Cymysgu Lliwiau

Paentiwch un lliw ym mhob cylch ac yna eu cymysgu i weld pa liw maen nhw'n ei wneud.







Cyfateb Lliw

Rhowch y lliw cywir gyda'r ffrwyth.

















Yr un gwahanol

Rhowch gylch o amgylch y lliw gwahanol




Cyfrwch y siapiau lliw



Enfys Duw o Addewidion

Bydd angen y canlynol arnoch:


1. Tudalen templed addewid
2. Rhywfaint o gardbord
3. Peli cotwm
4. glud
5. Siswrn
6. gwlân neu linyrn



Beth i'w wneud:



Torrwch siâp cwmwl
allan o gardbord




Gorchuddiwch gyda
glud



Gorchuddiwch gyda
pheli gwlân cotwm



Torrwch yr addewidion
yn stribedi



Gludiwch nhw o dan
y cwmwl



Atodwch linyrn i
hongian

Enfys Duw o addewidion

"Mae gen i gynlluniau da i chi." - Jeremeia 29:11

"Fe roddaf orffwys i chi." - Mathew 11:28

"Ni fyddaf byth yn eich gadael." - Hebreaid 13:5

"Fi yw'r bugail da." - Ioan 10:11

"Mae Duw' n gwranddo arnom bob tro y gofynnwn iddo." - 1 Ioan 5:15

"Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, ac fe gei dy achub." Actau 16:31

"Paid bod ag ofn, achos dw i gyda ti." - Isaiah 43:5

Enfys Duw o addewidion

"Mae gen i gynlluniau da i chi." - Jeremeia 29:11

"Fe roddaf orffwys i chi." - Mathew 11:28

"Ni fyddaf byth yn eich gadael." - Hebreaid 13:5

"Fi yw'r bugail da." - Ioan 10:11

"Mae Duw' n gwranddo arnom bob tro y gofynnwn iddo." - 1 Ioan 5:15


"Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, ac fe gei dy achub." Actau 16:31

"Paid bod ag ofn, achos dw i gyda ti." - Isaiah 43:5


Crefft Arch Enfys 3D

1. Am y canlyniadau gorau printiwch ar gerdyn
2. Lliwiwch y llun
3. Cael oedolyn i dorri'r cylch allan a'r ardal lwyd y tu ôl i'r Arch
4. Plygwch yn y canol i wneud llun 3D







Mae Duw'n eadw Ei addewidion









Addoli

Argymhellir caneuon addoli. Heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos YouTube i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.

Duw yn cadw ei addewidion

<https://youtu.be/WVKe7Cl3PZc>

Standing On The Promises Of God

<https://youtu.be/OF8wWIPYPpk>

God Always Keeps His Promises

<https://youtu.be/WzrFkvn1LGg>



Gweddï

Defnyddiwch liwiau'r enfys i ddiolch i Dduw am y pethau y mae wedi'u gwneud.

Er enghraifft

Diolch am wneud yr haul melyn, yr awyr las, y glaswellt gwyrdd....

Wythnos nesaf

Tŵr Babel

Os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, cofrestrwch i dderbyn gwerau yn y dyfodol drwy e-bost.

truewaykids.com/subscribe/

